| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **22 IONAWR 2024** |
| TEITL | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS | **Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru** |
| ARGYMELLIAD | **DERBYN A NODI Y WYBODAETH** |
| AWDUR | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLlL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Waystone fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

## 2. DIWEDDARIAD CHWARTERTOL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU (CLl)

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl), sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 13 Rhagfyr 2023. Mae’r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o’r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i’r adroddiad hwn. Adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24 a gellir ei weld yn Atodiad 2.

## 3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o’r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi’i atodi yn Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 30 Medi 2023.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn wyth o’r un ar ddeg is-gronfeydd ac ar 30 Medi 2023 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £378.1m**
- **Twf Byd- Eang- £362.7m**
- **Marchnadoedd Datblygol - £56.3m**
- **Goddefol Byd-Eang - £529.5m**
- **Credyd Aml Ased - £205.1m**
- **Bond Dychwelyd Absoliwt- £398.5m**

- **Cronfa Credyd Byd-Eang - £131.6m**
- **Cronfa Ecwiti Cynaliadwy- £275.3m**

## 4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30 MEDI 2023

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn atodiad 4.

Aeth ecwitïau i lawr yn dilyn enillion blaenorol ar ddisgwyliadau cynyddol y byddai cyfraddau llog yn aros yn uwch yn hirach, yn dilyn sylwadau chwyrn gan fanciau canolog. Mae prisiau olew eithriadol o uchel wedi ychwanegu at bryderon y bydd y frwydr dros chwyddiant yn parhau. Fe wnaeth pryderon am economi Tsieina, yn benodol y sector eiddo, beri gwerthiannau mewn ecwitïau Tsieineaidd yng nghanol y chwarter, er hyn fe wnaeth mesurau symbylu newydd o Beijing a hwb mewn gweithgynhyrchu leddfu rhai o'r cwympiadau. Cryfhaodd doler yr Unol Daleithiau yn erbyn y rhan fwyaf o arian cyfred. Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed) a Banc Lloegr (BoE) godi cyfraddau 25 pwynt sail (bps) yn gynharach yn y chwarter, ond fe'u gadawsant heb eu newid yn eu cyfarfodydd ym mis Medi. Fe wnaeth Banc Canolog Ewrop (ECB) godi cyfraddau ddwywaith, 25bps bob tro – daeth hyn â nhw i'r ffigwr uchaf erioed o 4.0%.

Mae perfformiad yr is-gronfeydd y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi ynddynt yn cael eu monitro gan swyddogion, ac fel rhan o adolygiad buddsoddi chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes pryderon wedi eu nodi.

## 5. DATBLYGIADAU'R DYFODOL

- Mae ymuno gyda'r is-gronfa Isadeiledd Penagored a mandad Ecwiti preifat Schroders yn parhau.
- Mae'r ymarfer caffael ar gyfer y rheolwyr Eiddo yn digwydd ar hyn o bryd.

## 6. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi y wybodaeth.